



Swyddog lechyd Diogelwch a Lles

Rhif Cyf: NU270

GRADD 8

**Cyflog: £28,371 y flwyddyn (Pro Rata)
30 awr yr wythnos**

Swydd dros dro i gwmpasu absenoldeb cyfnod mamolaeth

Cododd y swydd wag dros dro uchod o fewn Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a leolwyd ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant.

Rydym yn chwilio i recriwtio person hynod fedrus a phrofiadol i weithio o fewn ein Tîm lechyd, Diogelwch a Lles. Nid oes angen i ymgeiswyr blaenorol ar gyfer y swydd hon wneud cais.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag amrediad o ddyletswyddau sy'n gymesuroi â rôl Swyddog lechyd, Diogelwch a Lles.

Disgwylir i ddeiliad y swydd :

- Ymgymryd ag arolygiadau ac archwiliadau gorsaf
- adolygu asesiadau risg
- darparu ystod o hyfforddiant sy'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch
- gweithredu fel man cyswllt mewn perthynas â materion lechyd a Diogelwch i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â:

- Phrofiad o weithio o fewn amgylchedd lechyd a Diogelwch

Gall y rôl hon gynnwys peth teithio achlysurol rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Mae pob penodiad yn amodol ar wiriad trwydded yrru, prawf alcohol a chyffuriau ac archwiliad meddygol.

A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses gystadleuol iawn a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o feini prawf hanfodol y fanyleb person bydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnha, u eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/>

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag RDS.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **25/9/23 12:00 hanner dydd**.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

